



Annwyl riant/gwarcheidwad

### **Parthed: Imiwneiddio staff a phlant**

Mae imiwneiddio yn bwysig iawn er mwyn cadw'n plant yn iach. Mae'n achub mwy o fywydau nag unrhyw ymyrraeth feddygol arall, ac rydym yn awyddus i wneud yn siŵr bod pob plentyn yma'n cael eu diogelu er mwyn iddynt gael y cychwyn gorau mewn bywyd.

Dyna pam rydym yn awyddus i wneud yn siŵr bod gan rieni/gwarcheidwaid pob plentyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y brechiadau y dylai eu plentyn fod wedi'u cael, a pham ein bod yn annog pob plentyn i gael y brechiadau i gyd.

Gall yr wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol ichi:

- Taflenni am yr imiwneiddio sy'n arferol ar gyfer plant yn y DU
- Taflen ffeithiau am y frech goch

Hefyd, rydym yn amgáu rhestr wirio fer o'r brechiadau sy'n arferol yn y DU i blant ifanc. A fyddech cystal â chwblhau'r rhestr wirio hon a'i dychwelyd atom fel y gallwn ddiweddarau ein cofnodion.

Er nad yw cwblhau'r rhestr hon yn orfodol, os yw'r wybodaeth ar gael inni bydd yn ein helpu i weithredu'n gyflym ac yn fwy effeithlon os bydd achos o glefyd yn digwydd. Os nad ydych yn siwr pa frechiadau mae eich plentyn wedi'u cael, fe fyddant fwy na thebyg wedi'u nodi ar Gofnod Iechyd Personol eich plentyn (Y Llyfr Coch), a bydd gan eich meddyg teulu gofnod llawn hefyd.

Os ydych yn meddwl bod eich plentyn wedi methu unrhyw frechiadau, gofynnwch yn eich meddygfa fel y gallant edrych ar eu cofnodion a threfnu i roi unrhyw frechiadau sydd eu hangen ar eich plentyn.

Wrth edrych ar statws imiwneiddio'r plant, mae'n ein helpu ni i wneud yn siwr bod y plant yma wedi eu diogelu cyn iddynt ddechrau gyda ni. Os hoffech drafod y brechiadau neu os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'ch Ymwelydd Iechyd am gyngor.

Mae gan [www.nhs.uk/vaccinations](http://www.nhs.uk/vaccinations) lawer o wybodaeth ddefnyddiol am imiwneiddio.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn y rhestr wirio ac at groesawu eich plentyn i amgylchedd iach a hapus lle gallwch fod yn hyderus eu bod wedi'u diogelu rhag clefydau y gall brechlynnau eu hatal.

Yn gywir

Eirianwen Williams

## Brechiadau sy'n arferol yn y DU

Dyma restr wirio o'r brechiadau sydd wedi'u trefnu ac y dylai pob plentyn eu cael. A fydddech cystal â chwblhau'r rhestr wirio a'i dychwelyd fel bod gennym gofnod cyflawn a chywir.

Enw'r plentyn: .....

Dyddiad geni: .....

Yr oedran sy'n arferol ar gyfer brechu	Y clefydau y diogelir yn eu herbyn	Brechlynnau	Ticiwch a nodwch ddyddiad y brechiad (os ydych yn gwybod beth ydyw)
<b>Dau fis oed</b>	Difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio a <i>Haemophilus influenzae</i> math b (Hib)	DTaP/IPV/Hib	
	Haint niwmococol	PCV	
<b>Tri mis oed</b>	Difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio a <i>Haemophilus influenzae</i> math b (Hib)	DTaP/IPV/Hib	
	Meningitis C (meningococol grŵp C)	MenC	
<b>Pedwar mis oed</b>	Difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio and <i>Haemophilus influenzae</i> math b (Hib)	DTaP/IPV/Hib	
	Meningitis C	MenC	
	Haint niwmococol	PCV	
<b>Rhwng 12 ac 13 mis – yn fuan ar ôl y pen-blwydd cyntaf</b>	<i>Haemophilus influenzae</i> math b (Hib) a Meningitis C	Hib/MenC	
	Haint niwmococol	PCV	
	Y frech goch, clwy'r pennau a rwbela	MMR	

I rieni/gwarcheidwaid pob plentyn sy'n mynychu Pitian Patian Llanwnda

<b>Tair blwydd a phedwar mis oed</b>	Difftheria, tetanws, pertwsis (y pas) a pholio	DTaP/IPV neu dTaP/IPV	
	Y frech goch, clwy'r pennau a rwbela.	MMR	

Llofnod.....

Enw.....

Perthynas â'r plentyn .....

Dyddiad.....